

TAR UWCHRADD

**YSGOL ADDYSG A PHOLISI CYMDEITHASOL
CAERDYDD**

Gwybodaeth Sefydlu

2019



**Cardiff
Metropolitan
University**

**Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd**

C Y N N W Y S

- 1. Croeso gan Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR Uwchradd**
- 2. Gwybodaeth Ddefnyddiol**
- 3. Amlinelliad o'ch Diwrnod Cyntaf**
- 4. Gweithdrefnau Ymrestru**
- 5. Cod Ymddygiad**
- 6. Canolfan Ddysgu Cyncoed**

1. Croeso gan Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR Uwchradd

Annwyl Athro dan Hyfforddiant

Croeso i raglen TAR Uwchradd Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Rydych chi'n ymuno â rhaglen gyffrous ac arloesol newydd sbon a grëwyd ar y cyd ag ysgolion partner. Credwn fod addysgu yn alwedigaeth bwysig sy'n rhoi boddhad mawr, a gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r her o baratoi i ddilyn gyrfa yn un o'r proffesiynau pwysicaf.

Diben y rhaglen yw eich helpu chi i ddatblygu'n athro hyderus, ymroddgar ac effeithiol. Mae llawer o wybodaeth ar gael am addysgu da ac, yn ystod eich blwyddyn gyda ni, byddwch chi'n dysgu llawer o sgiliau. Rydym ni'n disgwyl llawer gennych chi o ran gwaith caled, brwdfrydedd a chreadigrwydd, gwybodaeth am bwnc a gallu addysgu. Mae addysgu yn golygu dysgu: dysgu i fyfyrwyr, cwestiynu neu addasu eich arferion, a chanolbwyntio ar brosesau dysgu disgyblion.

Dylech gyrraedd Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Campws Cyncoed mewn da bryd i glywed darlith ragarweiniol gan Arweinwyr y Rhaglen **ar 9 Medi 2019 am 9.00am**. Cynhelir sesiynau yn Narlithfeydd 1 a 4. Gwiriwch yr amserlen isod i weld ym mha ddarlithfa fydd eich sesiynau, yn dibynnu ar eich pwnc. Byddwch chi'n derbyn amserlen ar gyfer yr wythnos gyntaf a fydd yn cynnwys sesiynau ar gyfer y cohort cyfan a sesiynau grŵp, a fydd yn eich helpu chi i ddod i adnabod eich gilydd. Yn ystod yr wythnos honno, darperir gwybodaeth allweddol am grwpiau ac aseiniadau. Bydd cynnwys y sesiynau yn cynnwys Astudiaethau Pwnc, Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a llesiant y disgybl), Datblygiad y Gymraeg ac Astudiaethau Proffesiynol. Byddwch chi hefyd yn mynd i Gynhadledd Fframwaith Cymhwysedd Digidol ddydd Gwener 13 Medi. Dylech fod yn barod i sesiynau gychwyn am 9am a gorffen am 5pm.

Ar y diwrnod cyntaf, bydd angen i chi ddod â'ch tystysgrifau TGAU a gradd perthnasol gyda chi, os nad ydych chi eisoes wedi eu darparu.

Mae gweddill y pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am y cod ymddygiad y disgwylir i chi gydymffurfio ag ef tra'ch bod yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, map a gwybodaeth benodol am y cyfleusterau llyfrgell a TG, manylion cofrestru a diweddariad ar y gofynion Hyfforddiant ac Addysg Gychwynol Athrawon.

Mae angen i chi fod yn ymwybodol y byddwch chi'n cael eich archwilio yn ystod wythnosau cyntaf y rhaglen ar lythrennedd a rhifedd. Bydd y profion hyn mewn fformat tebyg i'r rhai wnaethoch chi eu cwblhau fel rhan o'ch cyfweiliad. Efallai yr hoffech chi fynd ar ein gwefan i ymgyswrtu â'r rhain eto a gwneud rhywfaint o waith astudio er mwyn diweddarau eich gwybodaeth.

Mae'r rhaglen yn ddwys a bydd rhaid i chi ymrwymo'n llawn iddi er mwyn cael y budd pennaf ohoni a llwyddo. Er hynny, credwn y bydd y rhaglen yn rhoi dechrau da i chi yn y proffesiwn fel y gallwch chi wneud cyfraniad llawn a phwysig iawn at lywio dysgu, agweddau a rhagolygon y plant y byddwch chi'n eu haddysgu.

Edrychaf ymlaen at eich croesawu chi ym mis Medi.

Viv John – Cyfarwyddwr y Rhaglen

2. Gwybodaeth Ddefnyddiol

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Cardiff School of Education & Social Policy | Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd
Cyncoed Campus | Campws Cyncoed

RHAGLEN TYSTYSGRIF ADDYSG I RADDEDIGION

PWYSIG:

Anfonwch gadarnhad o'ch canlyniadau (os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny) a nodwyd yn eich cynnig e.e. canlyniadau Gradd/TGAU/Safon Uwch, at:

Lisa Bowen

Pennaeth Derbyn

Marchnata a Chysylltiadau Allanol

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

Campws Llandaf, Rhodfa'r Gorllewin, CAERDYDD

CF5 2YB

Mae'n hollbwysig hefyd eich bod chi'n mynd trwy'r broses Datgeliad Manylach gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) trwy ein gwasanaeth ar-lein – GB Group, gan ddefnyddio'r ddolen a anfonwyd i'ch cyfeiriad e-bost personol.

NODYN ATGOFFA:

OS NAD YDYCH CHI'N BWRIADU DERBYN CYNNIG O LE AR Y RHAGLEN TAR, DYLECH ROI GWYBOD I NI AR UNWAITH FEL Y GALLWN NI GYNNIG Y CYFLE HWNNW I RYWUN ARALL.

CYMORTH ARIANNOL

Ni fydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ariannol oni bai mai chi neu gyflogwr sy'n talu'r ffioedd. **Os byddwch chi'n methu â dangos tystiolaeth o gymorth, efallai y bydd rhaid i chi dalu ffioedd llawn y cwrs fel y nodir yn 'ffioedd dysgu - gwybodaeth.'**

Ni fydd angen i fyfyrwyr sy'n derbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru/Lloegr ddarparu tystiolaeth gan y bydd y Brifysgol yn derbyn cadarnhad yn awtomatig.

DYDDIADAU'R TYMHORAU AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2019-2020

Tymor yr Hydref: 9 Medi 2019 tan 20 Rhagfyr 2019

Tymor y Gwanwyn: 6 Ionawr 2020 tan 3 Ebrill 2020

Tymor yr Haf: 20 Ebrill 2020 tan 19 Mehefin 2020

DS 1: Gan fod 120 o ddiwrnodau o brofiad ysgol yn ofyniad statudol mewn perthynas ag unrhyw Raglen TAR Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (gweler yn ddiweddarach yn y pecyn), mae rhai diwrnodau wedi'u neilltuo cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi Terfynol ar 19 Mehefin i unrhyw un sydd wedi colli diwrnodau, er enghraifft, oherwydd salwch. Mae'n ofynnol i **BOB** myfyriwr fynd i sesiynau terfynol Prifysgol Metropolitan Caerdydd ddydd Mercher 17 a dydd Iau 18 Mehefin 2020.

DS 2: Mae'r dyddiadau uchod yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddyddiadau tymor Prifysgol Metropolitan Caerdydd rydych chi wedi'u derbyn yn flaenorol.

DS 3: Ni ddylech drefnu unrhyw wyliau hyd nes y byddwch chi'n gwbl ymwybodol o holl ddisgwyliadau'r rhaglen..

3. Amlinelliad o'ch Diwrnod Cyntaf

AMSER	GWEITHGARWCH	GRWPIAU	Lleoliad/Staff
9 - 10	Prif Ddarlith: Croeso a Chyflwyniad	<p>Grŵp 1: Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, TGCh, Addysg Gorfforol</p> <p>Grŵp 2: Cerddoriaeth, Celf, Drama, Saesneg, Cymraeg, Ieithoedd Tramor Modern, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Hanes</p>	<p>Darlithfa 1 Steve McCarthy</p> <p>Darlithfa 4 Viv John</p>
10 – 11	Pwnc	Croeso i'r pwnc a Thorri'r lâ	I'w gadarnhau / Tiwtoriaid y pwnc
AMSER	Mathemateg, Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol	Dylunio a Thechnoleg, TGCh, Celf, Saesneg, Ieithoedd Tramor Modern	Cerddoriaeth, Drama, Cymraeg, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Hanes
11 - 12	TORIAD	TORIAD	TORIAD
12 - 1	YMRESTRU	Astudio dan Gyfarwyddyd	<p>Prif Ddarlith: Y Cwricwlwm Cymreig a'r Gymraeg</p> <p>Darlithfa 4 Gina Morgan</p>
1 - 2	<p>Prif Ddarlith: Y Cwricwlwm Cymreig a'r Gymraeg</p> <p>Darlithfa 1 / Gina Morgan</p>		<p>Prif Ddarlith: Cwricwlwm Newydd i Gymru</p> <p>Darlithfa 4 / Viv John</p>
2 - 3	<p>Prif Ddarlith: Cwricwlwm Newydd i Gymru</p> <p>Darlithfa 1 / Steve McCarthy</p>		YMRESTRU
3 - 4	Astudio dan Gyfarwyddyd	YMRESTRU	Astudio dan Gyfarwyddyd
4.30	Lansio Partneriaeth Caerdydd – Archer's Arena – POB Myfyriwr a Staff		

4. Gweithdrefnau Ymrestru

Mae ymrestru yn broses bwysig sy'n cadarnhau eich statws fel Myfyriwr. Gallwch gwblhau'r broses hunan-ymrestru ar-lein ar unrhyw gyfrifiadur trwy ein system Hunanwasanaeth. Er mwyn hunan-ymrestru, rhaid eich bod chi wedi derbyn cynnig Cadarn Diamod (UF) a rhaid bod eich gwiriad DBS manylach wedi'i glirio a'i ddilysu gan y Gwasanaeth Derbyn.

Byddwch chi'n derbyn e-bost yn dweud pryd rydych chi'n gymwys i ymrestru ar-lein. Bydd yr e-bost yn eich cyfeirio at gyfleuster ailosod cyfrinair er mwyn i chi wneud cais am gyfrinair er mwyn gallu mewngofnodi a chwblhau'r broses ymrestru. I gael gwybodaeth ac arweiniad ar y broses hon, ewch i'n tudalen ymrestru – www.cardiffmet.ac.uk/enrolment

Mae'r broses hon yn hollbwysig gan y bydd yn eich galluogi chi i gael mynediad at eich benthyciad myfyriwr (os ydych chi wedi gwneud cais amdano) a systemau TG Met Caerdydd, i dalu ffioedd ac i gael gafael ar eich Cerdyn Met. Byddwch chi'n cael gwybod yn union pryd i gasglu eich Cerdyn Met yn ystod eich proses sefydlu.

Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth

Bydd gennych chi fynediad at Wasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan ar ôl i chi gwblhau eich ymrestriad ar-lein. Byddwch chi'n derbyn e-bost yn cadarnhau eich manylion mewngofnodi Met Caerdydd. I weld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library

Eich Cerdyn Met

Mae'r amser y dylech chi fynd i gasglu eich Cerdyn Met wedi'i nodi yn eich gwybodaeth **Wythnos Sefydlu**. Mae eich Cerdyn Met yn eich galluogi chi i gael mynediad i bob un o brif adeiladau a drysau'r campws. Gallwch chi hefyd ychwanegu arian at eich Cerdyn Met i dalu am ddefnyddio argraffwyr a chopiwyr hunanwasanaeth a gwasanaethau'r Stiwdio Argraffu. I weld mwy o fanteision Cerdyn Met, [cliciwch yma](#).

Ffioedd

Ffioedd y rhaglen ar gyfer mis Medi 2019 yw £9,000. Os oes gan eich rhaglen unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â hi, byddant wedi'u rhestru yn www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts Dylech chi fod yn ymwybodol o'r costau hyn yn barod.

5. Cod Ymddygiad

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

POB MYFYRIWR – CAMPWS CYNCOED

Tra'ch bod yn fyfyrwr ar y cwrs hwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gydymffurfio â'r canlynol:

a. Bod yn ystyriol o eraill

- Peidiwch â gwneud gormod o sŵn ar y campws.
- Ni ddylid gwranddo ar y radio, chwarae cerddoriaeth, canu offerynnau ac ati at ddibenion hamdden mewn unrhyw ran o'r blociau addysgu a'r ystafelloedd lle mae myfyrwyr yn ymgynnull.
- Dylid bod yn ofalus hefyd wrth adael y campws yn y nos. Caewch ddrysau ceir yn dawel a pheidiwch â siarad yn uchel na chanu corn.

b. Dillad yn yr Ardaloedd Bwyta

- Rhaid gwisgo dillad o safon resymol bob amser (ni dderbynnir dillad gweithio neu ddillad budr h.y. dillad addysg gorfforol (siorts/fest), oferôls celf. Mae trasiwt GLÂN yn dderbyniol.

c. Gofal eiddo

- Dylid cymryd gofal mawr o eiddo personol ac eiddo'r Brifysgol. Dylid rhoi gwybod i Swyddog Gwasanaethau'r Campws am unrhyw ddifrod i eiddo'r Brifysgol ar unwaith. Efallai y bydd hi'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n gyfrifol am ddifrod o'r fath dalu costau trwsio ac amnewid. Dylai holl eiddo'r Brifysgol (gan gynnwys cyfarpar a llyfrau llyfrgell) sydd ar fenthyg i fyfyrwyr gael ei ddychwelyd yn ôl y gofyn i'r Ysgolion perthnasol.
- Dylid rhoi gwybod i Reolwr Neuaddau'r Brifysgol am unrhyw ddifrod i eiddo Neuaddau Preswyl. Dylid rhoi gwybod i Swyddfa Undeb y Myfyrwyr am unrhyw ddifrod i eiddo Undeb y Myfyrwyr. Unwaith eto, efallai y bydd hi'n ofynnol i fyfyrwyr dalu costau trwsio neu amnewid.

DYLAI GWERTH EIDDO PERSONOL MYFYRIWR GAEL EI GWMPASU GAN BOLISI YSWIRIANT CYNHWYSFAWR A DREFNIR GAN Y MYFYRIWR NEU EI RIENI. NI ALL Y BRIFYSGOL DDERBYN CYFRIFOLDEB DROS UNRHYW GOLLED.

(os oes angen, gallwch gael cyngor ar yswiriant trwy Undeb y Myfyrwyr neu'r Swyddog Llety.)

Mae'n bwysig i chi roi enw'r perchennog ar bob dilledyn ac eiddo arall. Dylai ymholiadau ynghylch eiddo coll gael eu gwneud i'r Brif Dderbynfa neu Swyddfa Undeb y Myfyrwyr.

d. Gofal tir

- Mae amodau amgylcheddol da yn bwysig i safonau byw holl gymuned y Brifysgol. Yn hyn o beth, gofynnir i chi roi eich sbwriel yn y biniau gwastraff a ddarperir. Mae'n bwysig i bawb nad yw'r tir yn cael ei gamddefnyddio. NI chaniateir gemau ar y borfa o gwmpas yr hosteli; dim ond ar gaeau chwarae y dylid chwarae gemau. Ni ddylid gyrru ceir ar y borfa o dan unrhyw amgylchiadau.

Unwaith eto, peidiwch â thafu sbwriel ar y campws.

e. Ceir ar y Campws

- Mae'r meysydd parcio yn rhai TALU ac ARDDANGOS – mae'r prif faes parcio i fyfyrwyr ar yr ochr chwith wrth i chi ddod i fyny'r prif ddreif a CHYN y rhwystr.
- Prin iawn yw'r llefydd parcio ar Gampws Cyncoed. Rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr nad ydynt yn byw ar y campws. **Felly, dim ond o dan amgylchiadau arbennig iawn y rhoddir caniatâd parcio i fyfyrwyr sy'n byw ar y campws** – i gael gwybodaeth, cysylltwch ag Andrew West, Rheolwr Cyfleusterau, Prifysgol Metropolitan Caerdydd – Campws Llandaf, Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2SG.

DS

- Mae terfyn cyflymder o 5mya ym mhob rhan o'r campws.
- Dylai ceir sy'n dod i mewn i'r campws ar ôl 10.30pm wneud hynny heb darfu ar breswylwyr.
- **Ni ddylai ceir gael eu gyrru ar lwybrau nac ar borfa gan fod hyn yn achosi difrod difrifol i lwybrau a gwasanaethau a phibellau dŵr tanddaearol.**
- Dim ond yn y parth dynodedig y gallwch chi barcio.
- Ni chaniateir i chi barcio wrth fynedfa.
- Mae'r maes parcio ym mlaen yr adeilad ar gyfer staff yn unig.
- Er diogelwch, rhaid cydymffurfio â phob arwydd, terfyn cyflymder a marc ffordd.

f. Beiciau ar y Campws

- Dim ond mewn ardaloedd dynodedig lle mae raciau beic y gall myfyrwyr gadw eu beiciau. NI DDYLAI beiciau gael eu cadw mewn hosteli.

g. Bar y Coleg

- Bydd pob myfyriwr a'u gwesteion yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a sefydlwyd yng Nghyfansoddiad y Bar.

Bydd pob myfyriwr a'u gwesteion yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Neuadd Breswyl.

h. Cyfleusterau TG y Campws

- Rhaid i fyfyrwyr sy'n defnyddio'r cyfleusterau TG ar y campws gymryd gofal mawr o'r cyfleusterau ac ymddwyn yn gyfrifol yn yr ystafelloedd mynediad agored.
- Mae'r campws yn cael ei wasanaethu gan ei gynghorwyr TG ei hun; mae mwy o fanylion am bopeth yn ymwneud â TG ar gael yn:
<http://tsr.uwic.ac.uk/learning/IT/Pages/Home.aspx>

i. Gwesteion

MAE POB MYFYRIWR YN GYFRIFOL AM YMDDYGIAD EU GWESTEION BOB AMSER A RHAID IDDYN NHW DYNNU EU SYLW AT Y COD YMDDYGIAD..

6. Canolfan Ddysgu Cyncoed

Mae'r Ganolfan Ddysgu yn galluogi mynediad at amrywiaeth eang o gyfleusterau Dysgu integredig modern sy'n briodol i'r rhai sy'n astudio mewn Addysg Uwch, ac fe'i sefydlwyd yn sgil cyflwyno'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu. Mae'r Ganolfan yn ymateb i ddatblygiad dysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr a dysgu hunangyfeiriedig fel rhan o'r un strategaeth honno. Gyda chymorth ac arweiniad proffesiynol, ardaloedd astudio â chyfleusterau da a mynediad at bob math o Adnoddau Dysgu a chyfleusterau TGCh, mae'r Ganolfan yn bwriadu darparu ar gyfer pawb, gan gynnwys y rhai ag anghenion arbennig. Mae nodweddion yn cynnwys dolenni sain, meddalwedd gynorthwyol, pwyntiau lefel isel wrth y ddesg a gorsafoedd cyfrifiadur dynodedig.

Ardaloedd Astudio ac Ymchwil: Mae'r Ganolfan yn darparu amgylchedd hyblyg sy'n cynnwys ystafelloedd y gall myfyrwyr eu harchebu ar gyfer cynllunio neu ymarfer cyflwyniadau ac aseiniadau, neu weithgareddau gwaith grŵp a hunan-astudio eraill.

Mae'r Ganolfan Ddysgu hefyd yn cynnwys ystafell astudio dawel, casgliad profiad addysgu a stiwdio fideo-gynadledda. Mae'r prif gasgliad llyfrau, deunydd cyfeirio a chyfnodolion ar y llawr daear.

Deunyddiau dysgu: Mae amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu ar ffurf llyfrau, cyfnodolion a chyfryngau electronig ar gael, gyda chyfleusterau argraffu o safon uchel, i gefnogi'r Cysiau a gynnigir ar bob Campws. Mae staff aml-sgiliau ar gael i gefnogi defnyddwyr gydag ymholiadau, o lefelau sylfaenol i fanwl. Mae sesiynau addysg defnyddwyr ar gael hefyd. Mae llungopiwyr ac argraffwyr du a gwyn a lliw ar gael i gefnogi'r cyfleusterau hyn.

I weld amseroedd agor yn ystod y tymor i gael mynediad at ardaloedd astudio a deunydd dysgu, ac i gael mwy o fanylion, ewch i:

<http://tsr.uwic.ac.uk/Learning/LC/Pages/Cyncoed-Learning-Centre.aspx>

Gwasanaethau Cyngor Astudio: Mae cyngor astudio a chymorth dysgu ar gael i bob un o fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae cynghorwyr astudio ar gael i helpu gyda phethau fel cyfeiriadau, paratoi cyflwyniad ac ati. Mae mwy o fanylion am gymorth a help gyda rhaglenni sgiliau cyflwyno a sgiliau astudio ar-lein ar gael 24 awr y dydd, ar y campws neu oddi ar y campws, trwy ddefnyddio'r URLs canlynol neu drwy Blackboard:

<http://tsr.uwic.ac.uk/Learning/AcSkills/Pages/Home.aspx>

<http://tsr.uwic.ac.uk/learning/Help/Pages/home.aspx>

Gallwch chi hefyd anfon e-bost i: academicskills@cardiffmet.ac.uk